"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 11eg Mai, 2026**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 8.00 p.m. hyd 9.00 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Efan Thomas (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

9. CYHOEDDIADAU'R IS-GADEIRYDDES

Croesawodd y Gadeiryddes bawb i'r cyfarfod a diolchodd am yr anrhydedd o gael ei hethol yn Gadeiryddes y Cyngor am y flwyddyn 2026/27.

10. YMDDISWYDDIAD

Cyflwynwyd llythyr gan Iwan James Williams ei fod yn dymuno ymddiswyddo o'r rôl o fod yn aelod o'r Cyngor a dywedodd ei "bod wedi bod yn fraint gwasanaethu'r gymuned" a dymunodd "y gorau i'r Cyngor yn y dyfodol."

Penderfynwyd anfon gair o ddiolch i Iwan Williams am ei wasanaeth.

Penderfynwyd ymhellach symud ymlaen i lenwi'r swydd drwy hysbyseb a.y.

11. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

12. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg EBRILL, 2026

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi o'r cofnodion:

(1)Eitem 117 cymal (1) – Goryrru ar allt Mellteyrn

Derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

"Diolch i chi am eich e-bost ynghylch y pryderon sydd wedi'u codi ar ran trigolion pentref Sarn Mellteyrn mewn perthynas â diogelwch traffig.

Mae Cyngor Gwynedd yn deall y pryderon a fynegir, yn enwedig o ran cyflymder cerbydau a'r ffaith bod defnyddwyr bregus o'r ffordd, gan gynnwys plant sy'n cerdded i gyfarfod y bws ysgol, yn gorfod defnyddio'r briffordd lle nad oes troedffordd ar gael mewn mannau.

Fel y gwyddoch, mae terfyn cyflymder statudol o 20mya eisoes wedi dod i rym drwy'r pentref. O ran y cais am arwyddion ychwanegol i bwysleisio'r terfyn cyflymder neu i rybuddio gyrwyr i arafu, mae'n bwysig egluro bod y weithred yn cael eu rheoleiddio'n llym gan Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol (TSRGD). O dan y rheoliadau hyn, nid oes darpariaeth gyfreithiol i osod arwyddion ailadrodd terfyn cyflymder o fewn ardal 20mya lle mae goleuadau stryd ac arwyddion mynediad priodol eisoes wedi ei sefydlu. O ganlyniad, nid yw'n bosib cyflwyno arwyddion ailadrod

ychwanegol nac arwyddion anffurfiol eraill heb weithredu y tu allan i'r fframwaith statudol, ac ni all y Cyngor wneud hynny.

Fel y gwyddoch, o ran y mater o gôr yrru, mae'n bwysig nodi mai cyfrifoldeb gwasanaeth yr Heddlu yw gorfodi terfynau cyflymder a delio ag ymddygiad gyrru peryglus ar y rhwydwaith priffyrdd sirol. Nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw bwerau gorfodi mewn perthynas â gôr yrru, ac felly dylid cyfeirio unrhyw bryderon penodol ynghylch gorfodaeth neu ymddygiad gyrwyr at uned Gan Bwyll.

Yn nhermau mesurau atodol, gellir weithiau ystyried nodweddion gweledol ar arwyneb y ffordd, megis marciau ffordd cylchig 20mya a 'dragon's teeth', fel dulliau i atgyfnerthu'r neges gyflymder isel. Fodd bynnag, dylid pwysleisio mai mesurau cefnogol yn unig yw'r rhain, ac nad ydynt yn cymryd lle gorfodaeth gan yr Heddlu nac ymyriadau gorfodi eraill. Byddai unrhyw ystyriaeth o fesurau o'r fath, pan yn briodol ac gyfreithiol, yn ategu gweithgarwch gorfodi yn hytrach na'i ddisodli.

Felly, er ein bod yn cydnabod y pryderon a fynegir gan y gymuned leol, nid oes opsiwn ar hyn o bryd i ymyrryd drwy ddarparu arwyddion ychwanegol yn y modd a awgrymir.

Diolch i chi am gymryd yr amser i ysgrifennu atom ac i gyflwyno safbwyntiau'r pentref mewn modd cyfrifol."

Penderfynwyd nodi'r atebiad a cheisio cael cefnogaeth Mabon ap Gwynfor i'r pryder gwirioneddol sy'n bodoli yn y pentref ac mae'r e-bost a ganlyn wedi ei anfon ato:

"Ar ran y Cyngor hoffwn eich llongyfarch ar gael eich ethol yn Weinidog Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru – dymuniadau gorau i chwi yn eich swydd newydd.

Troi atoch rydym yn y gobaith y gellwch ein helpu – rydym mewn gohebiaeth â'r Heddlu, Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ac 'Go Safe' yn ceisio cael unrhyw un ohonynt i wneud rhywbeth ynglyn a'r goryrru sydd ym mhentref Sarn Mellteyrn ac er yr holl ohebu nid oes fawr o ymateb yn dod o unrhyw ffynhonell.

Er fod y Cyngor yn cydymdeimlo gyda'r oll o'r Asiantaethau eu bod o dan bwysau anferth ar hyn o bryd, y teimlad yw y dylai fod diogelwch y cyhoedd yn flaenoriaeth ar y cyfan. Mae'r allt i lawr am y pentref o gyfeiriad Aberdaron yn beryglus iawn oherwydd y troadau a'r goryrru sydd yno er fod yna awyddion 20mya. Yna o ochr Pwllheli mae trafnidiaeth yn dod ar dipyn o gyflymder, eto er fod y cyflymdra yn 20mya, heb gymryd i ystyriaeth y clwstwr o dai sydd yno ac heb ymwybod fod y tro ger Tafarn Penybont yn dro ddigon cas pan ddaw peiriant neu lori o'r cyfeiriad arall i'w cyfarfod.

Ymateb diwetharaf Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd oedd;

" O ran y cais am arwyddion ychwanegol i bwysleisio'r terfyn cyflymder neu i rybuddio gyrwyr i arafu, mae'n bwysig egluro bod y weithred yn cael eu rheoleiddio'n llym gan Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol (TSRGD). O dan y rheoliadau hyn, nid oes darpariaeth gyfreithiol i osod arwyddion ailadrodd terfyn cyflymder o fewn ardal 20mya lle mae goleuadau stryd ac arwyddion mynediad priodol eisoes wedi ei sefydlu. O ganlyniad, nid yw'n bosib cyflwyno arwyddion ailadrodd ychwanegol nac arwyddion anffurfiol eraill heb weithredu y tu allan i'r fframwaith statudol, ac ni all y Cyngor wneud hynny.

Fel y gwyddoch, o ran y mater o gôr yrru, mae'n bwysig nodi mai cyfrifoldeb gwasanaeth yr Heddlu yw gorfodi terfynau cyflymder a delio ag ymddygiad gyrru peryglus ar y rhwydwaith priffyrdd sirol. Nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw bwerau gorfodi mewn perthynas â gôr yrru, ac felly dylid cyfeirio unrhyw bryderon penodol ynghylch gorfodaeth neu ymddygiad gyrwyr at uned Gan Bwyll."

Yn wir rydym wedi bod mewn cysylltiad â Gan Bwyll a'r diweddaraf dderbyniwyd gan Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd, ar

18fed Chwefror, 2026, oedd ...'I can confirm it is still in the process of making the site live. I apologies for the delay in this matter.'

O berthynas i'r Heddlu rydym wedi gwahodd Swyddog i gyfarfod o'r Cyngor ac rydym yn dal i ddisgwyl!! Deallwn fod Heddwas wedi bod yn y pentref unwaith ddwy ond yn anffodus mae yno pan nad yw'r pergyl ar ei waethaf – yr amser mwyaf pryderus yw pan fo plant yn cerdded i lawr i gyfarfod y bws yn y pentref a hynny heb lwybr troed o gwbl a'r ffordd yn culhau fel rydym yn dod i lawr yr allt. Mae hyn yn bryder mawr i'w rhieni yn ddyddiol ac wrth gwrs mae'r plant eisiau cael bod yn annibynol a dim eisiau rhiant yn eu tywys at y bws. Teimlir os na wneir rhywbeth yn fuan ar ddwy ochr y pentref, bydd plentyn/oedolyn neu feiciwr wedi cael ei daro gan gerbyd yn goryrru. Nid oes yr un ohonom eisiau hynny ar ein cydwybod yn sicr.

Tybed a fyddai modd i chwi roi pwysau ar yr awdurdodau i adolygu'r sefyllfa a/neu a fyddai modd i chwi ddod i gyfarfod rhai o'r aelodau fel y gellwch gael y darlun clir yn eich meddwl beth yw'r perygl sydd yn bodoli yn y pentref.

Gwerthfawrogir wrth gwrs fod eich amserlen yn llawn iawn ond os byddai gennych amser fe fydd croeso yn eich aros yn Sarn Mellteyrn!"

(2) Eitem 124 – Ail Agor Cronfa Cefnogi Cynghorau 2026

Ystyriwyd cyflwyno cais eleni eto am arian grant o GwyneddNi. Awgrymwyd paratoi pamffledi hysbysebu; hysbysfyrddau gyda hanesion o ddioddordeb lleol wedi eu nodi ynddynt a chôd QR er cael mwy o wybodaeth; diffibliwr i bentref Bryncroes.

Addawodd y Gadeiryddes y byddai yn gwneud ymholiadau faint fyddai'r gôst o argraffu pamffledi.

Penderfynwyd fod y Cyngor am gyflwyno cais ac fod y cyfarfod nesaf, neu gyfarfod arbennig o'r Cyngor, i benderfynu beth i'w gynnwys.

13. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

14. **AWDURDOD I DALU**

Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:

Archwilio Cymru am flynyddoedd 2020/21 - £550; 2022/23 - £500 a 2023/24 - £200; cyfanswm £1,2500 (siec 100076)

Llanw Llŷn – hysbyseb £8.10 (siec 100077)

Penderfynwyd hefyd awdurdodi talu 'Defi Store' £1,067.28 (pan i law) am becynnau a.y. ar gyfer y peiriannau diffibliwr ym Mhenygroeslon, Sarn Mellteyrn a Botwnnog.

Bellach y taliad o £1,067.28 wedi ei wneud ar 18fed Mai, 2025 (siec 100078).

Yn y cyswllt hwn, cyflwynodd Y Cynghorydd Carys H. Evans £697.50 mewn arian roedd wedi ei gasglu drwy gynnal gyrfaoedd chwist yng Nghongl Meinciau, Botwnnog. Bellach banciwyd yr arian parod yma ar 12fed Mai, 2026, a diolchwyd i'r Cynghorydd Carys Evans am ei pharodrwydd i gasglu'r arian.

15. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd tynnu sylw'r Awdurdod perthnasol at:

(a) y dŵr yn llifo ar y ffordd ger Minafon, Botwnnog, ac o'r herwydd fod twll enfawr wedi datblygu yn y ffordd.

(b) llanastr wedi ei daflu i'r ffos rhwng adwy Graig Fael a'r gongl sy'n arwain am Cae Newydd, Bryncroes.

(c) gyda'r rhaglen arwisgo'r ffordd yn barod i ddechrau o Fodnithoedd am bentref Sarn Mellteyrn, tynnu sylw unwaith yn rhagor at y dŵr sy'n llifo i'r ffordd ar y gongl heb fod ymhell o'r gilfan ger Bodnithoedd (hyn wedi cael ei dynnu sylw ato nifer o weithiau yn barod).

Tynnwyd sylw hefyd fod pryderon wedi dod i law am foduron yn parcio ar y ffordd rhwng Trewerin a Meddygfa, Rhydbach, Botwnnog. **Penderfynwyd** monitro'r sefyllfa am fis.